

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Gwasanaeth Mamolaeth (Ward
Gwenllian), Ysbyty Cyffredinol
Bronglais, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 1-3 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 3 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	32

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rhwng 1 a 3 Awst 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Gwenllian - sy'n darparu gofal cynenedigol, wrth esgor ac ôl-enedigol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth neu eu partneriaid i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 134 o holiaduron a chwblhawyd 43 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (dwy fydwraig ac un obstetregydd) ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelwyd y staff yn darparu gofal parchus a charedig i'r menywod a'u teuluoedd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff ar bob lefel yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a oedd wedi'i deilwra atynt ac yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd bron pob menyw a pherson sydd wedi rhoi genedigaeth y gwnaethom siarad â nhw wedi canmol y gofal a ddarparwyd iddynt, y staff ac amgylchedd yr uned famolaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl fenywod yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg a'u risgiau a manteision cyn iddynt roi cydsyniad deallus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cefnogi menywod gydag anawsterau cyfathrebu trwy'r cynllun Pasbort Mamolaeth
- Cynnig dewis i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a hoffai roi genedigaeth y tu allan i'r canllawiau
- Cynnig gofal yn Gymraeg a Saesneg
- Darparu ystafelloedd en-suite unigol, golau a mawr a chyfleusterau modern.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau.

Cadarnhaodd y cofnodion cleifion a welsom fod gwaith cynllunio gofal dyddiol yn hybu diogelwch y cleifion. Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol, gan sicrhau bod gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Roedd rhai meysydd i'w gwella yn ymwneud â chynlluniau staffio i ddarparu'r gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r rota ar alwad i fydwragedd a nyrsys sgryb er mwyn sicrhau bod staff gyda sgiliau priodol ar gael ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos.
- Adolygu trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer yr ystafell sefydlogi babanod newyddenedigol
- Cynyddu mynychder sganio cynenedigol mewn perthynas â thwf ffetysol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae prosesau asesu risg ac uwchgyfeirio deinamig cynhwysfawr ar waith i gadw menywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a babanod yn ddiogel
- Uned lân a thaclus yr olwg gyda phob gwiriad ar gyfer cyfarpar yn gyfredol ac wedi'i ddogfennu'n dda
- Roedd cynllun archwilio clinigol cynhwysfawr ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwyr i'w gweld yn yr uned ac roedd sylwadau gan y staff yn nodi eu bod yn hawdd mynd atynt a'u bod yn barod i dderbyn adborth. Roedd y tîm o uwch-reolwyr a rheolwyr canol yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig, brwdfrydig, cefnogol a gweladwy. Gwnaethom nodi bod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant obstetreg brys gorfodol yn isel mewn rhai timau.

Sicrwydd ar unwaith:

- Roedd lefelau hyfforddiant obstetreg brys gorfodol isel ar gyfer y tîm anesthetyddion yn isel ar tua 30%.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Amlygrwydd y meddygon ymgynghorol yn yr ardal glinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Diwylliant cadarnhaol o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau a dysgu ohonynt
- Roedd y tîm arwain yn weladwy, yn gefnogol ac yn ymgysylltu'n dda iawn â'r tîm o staff
- Mentrau gwella ansawdd i wella diogelwch/profiad
- Lefelau bodlonrwydd uchel ymhlith y staff a thîm uchel ei gymhelliant.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u teuluoedd. Cwblhawyd cyfanswm o 134 o holiaduron. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd yr holiadur yn famau (128/134) ac roedd y chwech a oedd yn weddill yn bartneriaid geni.

Gwnaeth y rhan fwyaf (97%) o'r ymatebwyr raddio bod eu gofal yn dda neu'n dda iawn, gan roi sylwadau fel:

“Mae'r staff wedi bod o help a chefnogaeth mawr drwyddi draw.”

“Roedd pob bydwraig yn ofalgar ac yn gyfeillgar yn fy marn i. Roeddwn yn teimlo hefyd fy mod i'n gallu siarad â nhw am fy ngofidiau neu sut roeddwn yn teimlo.”

“Mae'r staff ar ward Gwenllian yn Ysbyty Bronglais yn garedig ac yn sylwgar iawn, mae'n hawdd mynd ag unrhyw bryderon atynt.”

“Ni allaf roi digon o glod i'r staff am eu help, eu dealltwriaeth a'u cefnogaeth.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gyfarfod â sawl aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am iechyd y cyhoedd. Gwnaethom nodi bod tîm ar waith i gefnogi iechyd a llesiant menywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u teuluoedd trwy'u cyfnod cenhedlu a beichiogrwydd. Gwnaethom adolygu ffyrdd cynhwysfawr ac arloesol o hybu iechyd a llesiant. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen rhoi'r gorau i smygu, smygu llai, rheoli pwysau a pharatoi bwyd, yn ogystal â rhaglenni llesiant ehangach. Gwelsom fod gwybodaeth a chymorth ar gael mewn fformatau amryfal, gan gynnwys trwy Padlets, (adnodd y mae pobl yn ei ddefnyddio i greu cynnwys a'i rannu â phobl eraill) i sicrhau bod modd cael gfael ar wybodaeth ac adnoddau cyfredol i gefnogi dewisiadau iach trwy feichiogrwydd a thu hwnt. Roedd yn ddymunol gweld bod y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â llwyddiant y rhaglen rhoi'r gorau i smygu a

smygu llai wedi'i choladu a chaiff ei hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom nodi bod y cyfraddau llwyddiant yn uchel.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn annog pobl i roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

Roedd posterï hylendid dwylo a chanllawiau ar olchi dwylo wedi'u harddangos yn nhoiledau'r cleifion ac uwchben y sinciau.

Gofal urddasol a pharchus

Drwy gydol yr arolygiad, gwelwyd y staff yn trin pobl â gofal, caredigrwydd a pharch. Roedd y staff yn rhyngweithio'n gyfeillgar ac yn broffesiynol â menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Roedd yr holl fenywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a theluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon iawn ar eu gofal.

Roedd cynllun Ward Gwenllian yn golygu bod pob un o'r cleifion mewnol yn cael eu trin yn yr ystafelloedd ochr gyda chyfleusterau en-suite. Roedd hyn yn sicrhau bod eu preifatrwydd a'u hurddas yn cael eu cynnal. Roedd bron pob un (129/134) o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch, gan gytuno bod y staff yn gwrtais ac yn gwranddo arnynt. Roedd hyn yn gyson â'r sgysiau gyda chleifion mewnol y gwnaethom siarad â nhw tra'r oeddent ar y ward.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r uned. Roedd yr aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu cynnal ac roedd pawb yn credu bod y menywod a'r bobl a oedd wedi rhoi genedigaeth yn cael gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cynnwys yn y penderfyniadau hyn. Roedd pob un yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r menywod/pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u teuluoedd wrth wraidd popeth sy'n digwydd ar y ward. Mae'n amgylchedd cefnogol iawn i weithio ynddo. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth a darparwyr y gwasanaeth eu trin ag urddas a pharch.”

Cadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw iddynt dderbyn hyfforddiant priodol mewn profedigaeth ac roeddent yn teimlo'n hyderus o ran cael gafael ar bolisiau a chymorth gan gydweithwyr i roi gofal priodol i rieni a oedd newydd fynd trwy brofedigaeth.

Roedd ystafell brofedigaeth ddynodedig wedi'i lleoli ar ben draw'r ward ynghyd â bydwraig profedigaeth i sicrhau bod menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u teuluoedd yn cael cymorth priodol. Gwnaethom nodi bod y gwasanaeth profedigaeth yn ymestyn dros y bwrdd iechyd a bod cymorth ar gael i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth ac i staff.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod a'r bobl sydd wedi rhoi genedigaeth wrthym fod y staff wedi egluro'r opsiynau ar gyfer rhoi genedigaeth, unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r beichiogrwydd ac unrhyw opsiynau perthnasol o ran cymorth (123/134). Dywedodd rhai wrthym y byddent wedi hoffi cael mwy o wybodaeth a thrafodaeth am eu triniaeth obstetrig wrth dderbyn gofal fel claf mewnol.

“Rhoddwyd rhagor o wybodaeth cyn rhoi genedigaeth am doriadau cesaraidd, yn enwedig toriadau cesaraidd brys. Nid oeddem yn barod gan fod yr holl sgysiau cyn geni wedi'u hanelu at esgor yn naturiol.”

Wrth edrych ar 10 set o gofnodion cleifion, roedd y rhan fwyaf ohonynt yn dogfennu trafodaethau yn ymwneud â dewisiadau rhoi genedigaeth. Gwnaethom nodi tair set o gofnodion nad oeddent yn dogfennu trafodaethau yn ymwneud â phob dewis o ran rhoi genedigaeth a'r lleoliad, a oedd yn cynnwys risgiau a manteision pob un.

Gwelsom hefyd na chafodd un o'r cleifion mewnol bob opsiwn trin posibl am ei gofal pan oedd hi ar y ward (ni thrafodwyd yr opsiwn o wneud dim). Ni chawsom sicrwydd fod pob menyw ac unigolyn sydd wedi rhoi genedigaeth wedi cael digon o wybodaeth / trafodaeth ynghylch pob un o'u dewisiadau o ran triniaeth a gofal ac nid oedd ganddynt yr holl wybodaeth bob amser i benderfynu ar y camau nesaf. Cawsom wybod am gynlluniau i'r dyfodol i gynnal hyfforddiant cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer staff meddygol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob menyw ac unigolyn sydd wedi rhoi genedigaeth yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg a'u risgiau a manteision a dylid cael cydsyniad deallus.

Roedd staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Gwnaethom fynychu dau gyfarfod trosglwyddo a gwelsom gyfathrebu effeithiol ac effeithlon wrth drafod anghenion a chynlluniau'r menywod gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel a hwyluso dewisiadau. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Roedd yn amlwg o'r broses drosglwyddo a'r bwrdd cyfathrebu o fewn y maes trosglwyddo bod anghenion unigol yn cael eu trafod a'u rhannu.

Gwelsom dystiolaeth fod dewisiadau rhai cleifion yn cael eu galluogi a oedd y tu allan i ganllawiau a llwybrau cenedlaethol yn achlysurol. Roedd gan y dewisiadau hyn asesiadau risg, cynlluniau a chytundebau ysgrifenedig a phriodol ar waith pan oedd menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth yn gofyn amdanynt. **Gwelsom fod hyn yn arfer da.**

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd y menywod a'r bobl a oedd wedi rhoi genedigaeth wrthym fod y staff yn barod iawn i helpu a'u bod yn mynd i'r afael â'u hanghenion mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod holl anghenion y cleifion yn cael eu diwallu ac roedd y cofnodion yn dangos bod hyn yn digwydd.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn gallu ateb yr holl alwadau croes yn ystod eu hamser yn y gwaith. Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal y cleifion yn ogystal â siarad â'r menywod a'r bobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Drwy hyn, gwnaethom gadarnhau fod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom dystiolaeth bod menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth ag anawsterau cyfathrebu wedi'u nodi a'u cefnogi i gael gafael ar wasanaethau yn effeithiol trwy'r cynllun pasbort mamolaeth. **Nodwyd bod y cynllun pasbort mamolaeth yn arfer da.**

Cadarnhaodd y staff bod gwasanaethau cyfieithu ar gael i helpu â chyfathrebu pe byddai eu hangen. Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant "Mynd i'r Afael â Hiliaeth ym Maes Bydwreigiaeth" a oedd yn ymdrin â rhai meysydd cyfathrebu ac yn cael ei ddarparu trwy'r tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd. Dywedwyd wrthym fod rhagor o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â defnyddio gwasanaethau cyfieithu wedi'i ddarparu i gefnogi cyfathrebu diogel ac effeithiol gyda menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Gwnaethom edrych ar un set o gofnodion cleifion ar gyfer menyw o gefndir amrywiol nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddi. Gwnaethom nodi bod rhai cwestiynau yn yr apwyntiad heb eu hateb, nid oedd yn glir ai problem cyfathrebu/cyfieithu oedd hyn. Mae risg y caiff gwybodaeth bwysig ei cholli heb

ddefnydd effeithiol o wasanaethau cyfieithu i'r holl fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth y mae eu hangen arnynt.

Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu rhagor o hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cyfieithu eu defnyddio i gefnogi sgysiau clinigol pan na fydd Cymraeg / Saesneg yn bosibl.

Gwelsom fod llawer o staff yn siarad Cymraeg a chlywsom yr iaith yn cael ei siarad drwy'r arolygiad. Dywedodd menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth wrthym fod gofal wedi'i roi yn Gymraeg. Cawsom dri sylw yn dweud bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu gofal. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Do, gwnaeth gryn dipyn o wahaniaeth am fy mod i'n teimlo'n fwy cysurus.”

“Ar wahân i'r adeg yr oeddwn yn gweld y meddyg ymgynghorol, roedd aelod o staff a allai siarad Cymraeg ar gael yn ystod fy amser fel claf.”

Hawliau a Chydraddoldeb

Dywedodd y mwyafrif helaeth o fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a atebodd yr holiadur nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio yn sgil unrhyw nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Gwnaethom gyfarfod â thîm o staff amrywiol a nodwyd gennym fod hyfforddiant ar amrywiaeth a chydraddoldeb yn hanfodol ar gyfer pob aelod o'r staff.

Roedd ystafelloedd ac ystafelloedd ymolchi hygrych a choridoriau llydan ar ward Gwenllian er mwyn sicrhau y gall pawb eu cyrraedd yn rhwydd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o archwiliadau amgylcheddol rheolaidd a oedd wedi'u cwblhau. Gwelsom fod unrhyw broblemau'n cael eu huwchgyfeirio'n briodol a bod cofnodion o adrodd ar feiau'n cael eu dogfennu a chynnydd yn cael ei olrhain. Gwnaeth y prosesau hyn sicrhau bod risgiau yn yr amgylchedd yn cael eu rheoli'n effeithiol i gadw pobl yn ddiogel. Gwelsom fod tagiau diogelwch effeithiol yn cael eu rhoi i'r holl fabanod a bod system larwm effeithiol ar waith.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn deall y prosesau uwchgyfeirio sydd ar waith a gwnaethant ddisgrifio bod adnodd aciwtedd bob pedair awr yn cael ei ddefnyddio i asesu lefelau staffio diogel ar sail nifer y menywod ar y ward a byddant yn gwneud newidiadau yn unol â hynny. Dywedwyd wrthym am systemau ar alwad a oedd ar waith i gefnogi'r uned pan oedd aciwtedd yn uchel lle roedd bydwragedd cymunedol yn cael eu galw i mewn i'r ward.

Mae ystafell sefydlogi newyddenedigol Bronglais yn y Ward Famolaeth (Ward Gwenllian). Nid Uned Gofal Arbennig Babanod yw'r ystafell hon; gan fydwragedd, gyda chymorth y tîm Pediatrig sydd ar y safle ym Mronglais, y rhoddir y gofal yn bennaf. Gwnaethom adolygu prosesau'r ystafell sefydlogi newyddenedigol a'r hyfforddiant i staff. Defnyddir yr ystafell hon os bydd babi'n cael ei eni'n anhwylyd a bod angen mewnbwn newyddenedigol arno. Mae bydwragedd hyfforddedig yn cefnogi'r gwaith o ofalu am y babi newydd-anedig a naill ai'n dychwelyd y babi at y fam neu'n trefnu trosglwyddiad newyddenedigol iddo trwy CHANTS (Trosglwyddo Babanod Newyddenedigol Aciwt rhwng Ysbytai Cymru) er mwyn trosglwyddo babanod a pharhau i roi gofal arbenigol iddynt. Gwnaethom adolygu tystiolaeth y bwrdd iechyd sy'n gysylltiedig â nifer a chymhlethdod yr achosion newyddenedigol a oedd yn defnyddio'r ystafell sefydlogi newyddenedigol ym Mronglais. Dywedwyd wrthym fod arweinwyr bydweigiaeth yn arfarnu'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth hwn yn barhaus. Ceisiodd yr arweinwyr feincnodi perfformiad a chanlyniadau yn erbyn y nifer gyfyngedig iawn o wasanaethau tebyg ym mhob rhan o'r DU. Mewn unedau mamolaeth eraill yn y DU, neonatologyddion/nysys cynenedigol sy'n darparu'r gofal hwn i fabanod newydd-anedig yn bennaf. Gwelsom dystiolaeth o gymorth gan gydweithwyr ehangach y bwrdd iechyd wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Cawsom wybod nad oes gan staff yn y maes Pediatreg ym Mronglais ddigon o sgiliau ar hyn o bryd i gefnogi argyfyngau'r ystafell sefydlogi i fabanod newyddenedigol, ond maent yn mynychu pan ofynnir iddynt wneud.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau llywodraethu clinigol sy'n gysylltiedig â'r ystafell sefydlogi newyddenedigol i sicrhau bod y gwasanaeth a'r staff sy'n darparu gofal yn cael eu harwain yn briodol, yn gymwys, yn cael eu llywodraethu a'u cefnogi.

Dywedwyd wrthym pan fydd bydwagedd yn darparu gofal i fabanod newyddenedigol, nid oes bydwraig ar gael ar ardal aciwt y ward mwyach. Gwnaethom adolygu'r prosesau uwchgyfeirio sydd ar waith i sicrhau bod menywod sydd yn y cyfnod esgor yn parhau i gael gofal priodol gan fydwraig. Caiff y rota ar alwad ei staffio gan fydwagedd yn y gymuned. Efallai na fydd gan y bydwagedd hyn y sgiliau / ni fyddant yn gyfforddus wrth gefnogi gofal dan arweiniad y maes obstetreg ar gyfer genedigaethau mwy cymhleth. Mynegodd rhai aelodau o'r staff ofid bod bydwagedd yn y gymuned yn cael eu defnyddio i gefnogi menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth ac sydd dan arweiniad obstetreg mewn cyfnodau o aciwtedd uchel.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu proses y rota ar alwad i sicrhau bod staff gyda sgiliau priodol ar gael i gefnogi'r uned obstetreg mewn cyfnodau o aciwtedd cynyddol.

Fel uned obstetreg cymharol fach, risg isel, gwelsom fod asesiadau risg dynamig rheolaidd yn cael eu cyflawni i sicrhau gofal mamolaeth diogel. Gwelsom fod yr asesiadau risg dynamig rheolaidd yn arfer da. Gwelsom y staff yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn gweithio'n gydlynol i gadw'r uned yn ddiogel.

Gwnaethom edrych ar brosesau yn ymwneud â chwblhau ffurflenni Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru yn y theatr a gwnaethom nodi nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau bob amser, ac ar adegau, nad oedd y rhain yn cael eu cwblhau hyd nes bod y claf yn yr ystafell adfer. Yn ystod yr arolygiad, cadarnhaodd y brif fydwraig y byddai hyfforddiant i staff y theatr yn cael ei drefnu ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ffurflenni monitro Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru yn cael ei chodi.

Gwnaethom adolygu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chymorth staff y theatr ar gyfer argyfyngau obstetrig y tu allan i oriau. Gwnaethom nodi, er bod y rhan fwyaf o staff y theatr ar gael ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos ac ar gael ar gyfer gofal obstetrig mewn theatr, nid oes dwy nyrs sgryb ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos, mae 1 yn nyrs breswyl ac mae rota ar alwad ar waith i ail nyrs sgryb gefnogi argyfyngau obstetrig y tu allan i oriau. Mewn argyfwng obstetrig, er enghraifft i gyflawni toriad cesaraidd categori 1, mae angen i'r staff fod yn bresennol er mwyn gallu geni'r babi ymhen 30 munud o'r penderfyniad i eni: gallai staff sy'n dod i mewn o'u cartrefi achosi oedi yn hyn o beth.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system ar alwad ar gyfer nyrsys sgryb er mwyn sicrhau bod staff theatr preswyl ar gael bob awr o'r dydd a'r nos i ddarparu gofal yn y theatr mewn argyfwng obstetrig.

Gwnaethom adolygu'r gofrestr risg lefel adran a chyfarwyddiaeth a gwnaethom nodi dyddiadau adolygu rheolaidd a system sgorio RAG sydd ar waith i fonitro risgiau. O archwilio, cadarnhaodd y gofrestr risg ein canfyddiadau nad yw'r broses o sganio cyfresol ar gyfer twf ffetysol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Ar adeg yr arolygiad, roedd sganio cyfresol yn cael ei gynnal ddwywaith yr wythnos o 28 wythnos ymlaen. Dywedwyd wrthym os bydd pryderon am dwf yn cael eu nodi, bydd sganiau amlach yn cael eu cynnal i fonitro twf, ond mae'r canllawiau'n nodi y dylid cynnal sganiau o dwf ffetysol bob 3-4 wythnos o 28 wythnos ymlaen. Mae risg i ddiogelwch menywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth a babanod os na ddilynir y canllawiau cenedlaethol ar gyfer sganio twf ffetysol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion cynlluniau i liniaru'r risgiau o beidio â dilyn y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â sganio cynenedigol ar gyfer twf ffetysol, yn ogystal â chynlluniau i gynyddu'r capasiti ar gyfer sganio.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod pob ardal o'r ward (a'r theatr) i'w gweld yn lân ac yn daclus. Dywedodd pob menywod ac unigolyn sydd wedi rhoi genedigaeth a gwblhaodd holiadur a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn credu bod yr uned yn drefnus, yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â'r safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin a gwelsom fod technegau hylendid dwylo da ar waith. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y gweithdrefnau golchi dwylo cywir i'w dilyn er mwyn i'r staff allu edrych arnynt i'w hatgoffa. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom fod archwiliad hylendid dwylo wedi'i gwblhau'n fisol a chafodd canlyniadau eu monitro ac maent yn gyson uchel.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod cyfarpar ac ystafelloedd wedi'u glanhau yn briodol gyda rhestrau gwirio wedi'u cwblhau a'u dyddio ar waith. Cawsom sicrwydd o'r broses ar gyfer glanhau ystafelloedd a chyfarpar yn drwyadl ar ôl i gleifion heintus eu defnyddio.

Gwnaethom adolygu polisiau priodol a chyfredol a oedd yn gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau a oedd ar gael i'r staff ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Diogelu plant ac oedolion

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau diogelwch cynhwysfawr ar waith ym mhob rhan o'r uned er mwyn sicrhau bod teuluoedd a babanod yn ddiogel. Roedd

mynediad i bob ardal wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bäs staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad drwy'r system intercom.

Gwnaethom adolygu'r dystiolaeth o ymarfer herwgydio babanod a oedd wedi cael ei gynnal yn gynharach eleni. Roedd tystiolaeth o rannu adborth a dysgu gwersi er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y babanod yn yr adran.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol, a chadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i hysbysu'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth a dderbyniwyd i'r uned. Roedd hyn yn sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a oedd yn cael eu rhoi yn briodol. Roedd pob un o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a'r prosesau i'w dilyn pe bai ganddynt bryderon diogelu.

Rheoli gwaed

Gwelsom fod hyfforddiant a systemau gorfodol priodol ar waith i sicrhau y caiff gwaed ei reoli a'i drallwysu'n ddiogel.

Roedd hyn yn cynnwys cofnod trallwysu Cymru gyfan, camau priodol i storio a thrin cynhyrchion gwaed, a hyfforddiant priodol i'r staff mewn perthynas â gweinyddu a monitro cleifion.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Yn gyffredinol, dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod cyfarpar meddygol priodol ar gael iddynt i ddarparu gofal i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff a ymatebodd i'r arolwg, lle roedd 38/43 yn cytuno bod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer digonol i wneud eu gwaith.

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welsom fod gwiriadau rheolaidd ar gyfarpar yn sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio.

Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Gwelsom fod gwiriadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn ystafelloedd y pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn codi yn ystod genedigaeth ddŵr. Rhoddwyd

sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Gwnaethom nodi nad oedd rhestr wirio glanhau'r pwll ar gael ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad, ond cawsom sicrwydd trwy dystiolaeth fod rhestr wirio glanhau'r pwll wedi'i chreu ac yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith. Gwnaethom nodi hefyd fod y Polisi Genedigaeth mewn Pwll wedi'i ddiweddarau a'i roi ar waith yn ystod yr arolygiad. O ganlyniad, cawsom sicrwydd fod y defnydd o'r pwll geni yn ddiogel a bod prosesau effeithiol ar waith.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Gwnaethom edrych ar 10 set o gofnodion cleifion. Wrth adolygu un set o gofnodion cleifion mewnol, gwnaethom nodi bod pesari Propess yn cael ei roi heb drwydded. Mae'r drwydded er mwyn mewnosod un pesari Propess yn unig. Gwnaethom edrych ar gofnodion a ddangosodd fod ail besari Propess wedi'i roi heb i adolygiad obstetrig wyneb yn wyneb gael ei ddogfennu ar gyfer meddyginiaeth anhrwyddedig. Cadarnhaodd aelodau o'r staff fod hyn yn ymarfer rheolaidd. Wrth adolygu dogfennaeth, gwnaethom nodi bod canllawiau'r bwrdd iechyd yn gywir ond nad oedd yr ymarfer rheolaidd yn cydymffurfio â'r canllawiau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad obstetrig wyneb yn wyneb yn cael ei ddogfennu ar gyfer cleifion lle rhoddir meddyginiaethau anhrwyddedig iddynt. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r ymarfer staff yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, rhoddodd yr Uwch-dîm Arwain sicrwydd i ni fod archwiliadau mewnol wedi'u cynnal a darparodd dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed i'r tîm. Gwelsom dystiolaeth o'r cynllun archwilio clinigol sydd ar waith ar gyfer 2023-2024 yn seiliedig ar archwiliadau clinigol cenedlaethol. Gwnaethom nodi dull strwythuredig o nyrsio ar y cyfan ac roedd archwiliadau clinigol ehangach yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a rhaglenni cenedlaethol.

Gwnaethom adolygu tystiolaeth o weithgarwch archwilio, gan gynnwys atal a rheoli heintiau ac archwiliadau amgylcheddol a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom sgoriau uchel ar y cyfan a gwnaethom nodi bod camau cywiro wedi cael eu cymryd, eu holrhain a'u monitro o ganlyniad i'r archwiliadau a gwblhawyd.

Dywedwyd wrthym fod rhagor o waith yn mynd rhagddo i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynllunio a'u cynnal gennym lle y bo'n briodol, a'r canlyniadau eu rhannu fesul adran (gan gynnwys bydwagedd a meddygon).

Maeth a hydradu

Gwelsom ginio yn cael ei weini ac roedd y bwyd i'w weld yn flasus ac wedi'i weini ar unwaith. Dywedodd y menywod a'r bobl sydd wedi rhoi genedigaeth wrthym fod dewis da o fwyd. Roedd y broses o drefnu a chydlynu'r amseroedd bwyd yn effeithlon. Yn anffodus, oherwydd rheoliadau iechyd a diogelwch, ni chaniateir storio ac ailgynhesu bwyd.

Dywedwyd wrthym am fenter gwella ansawdd, dan arweiniad Goruchwylwyr Clinigol i Fydwragedd er mwyn mynd i'r afael â chydymffurfiaeth wael â siartiau cydbwysio hylif. Roedd gofynion maeth a hylif y cleifion wedi'u dogfennu'n dda yn y cofnodion gofal cleifion a welsom.

Cofnodion y cleifion

Gwnaethom edrych ar 10 set o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion o safon dderbyniol, a bod cynlluniau yn cael eu dogfennu'n dda gan mwyaf. Roedd popeth wedi'i drefnu'n dda ac yn hawdd i'w ddilyn gydag atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut roedd penderfyniadau yn ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Gwelsom siartiau arsylwi priodol; ddefnyddiwyd llwybrau a bwndeli gofal.

Gwnaethom nodi bod asesiadau risg cynenedigol, Sgoriau Rhybudd Cynnar Diwygiedig (MEWS) a Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) wedi'u dogfennu i raddau helaeth. Gwelsom rai anghysondebau yng nghofnodion rhai o'r cleifion lle roedd rhai o'r llofnodion meddygol yn anodd eu darllen ac nad oedd rhifau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth na'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi'u gweld mewn 3/10 o'r cofnodion.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad cadw cofnodion yn cael ei gynnal bob chwarter o leiaf yn unol â safonau Strategaeth Gwaedu Obstetrig i Gymru. Dywedwyd wrthym hefyd fod Goruchwylwyr Clinigol a Bydwagedd yn archwilio'r broses cadw cofnodion yn rheolaidd ac yn sicrhau y caiff unrhyw themâu / materion eu holrhain a'u monitro ac y rhoddir gwersi ar waith.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom ofal yn cael ei ddarparu mewn ward addas i'r diben, mewn cyflwr da, glân, trefnus iawn a thaclus. Gwelsom fod timau o staff yn cydweithio i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i fenywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u teuluoedd.

Gwnaethom adolygu systemau a phrosesau sydd ar waith i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd. Er enghraifft, mae'r fydwraig iechyd y cyhoedd yn ymgynghori â thîm iechyd y cyhoedd y bwrdd iechyd i sicrhau na chaiff gwybodaeth a gwasanaethau eu dyblu ond sydd hefyd yn briodol i gleifion yr adran famolaeth. Dywedwyd wrthym am ddiwylliant lle cafodd atebion i broblemau eu rhannu ac y caiff staff ac arweinwyr eu grymuso i ddatrys materion.

Cawsom sicrwydd fod prosesau a gweithdrefnau yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu i sicrhau eu bod yn effeithlon ac effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu darparu gan Ysbyty Cyffredinol Bronglais a'u profiad o weithio yno. Cafwyd cyfanswm o 43 o ymatebion gan aelodau o'r staff.

Cafwyd atebion cadarnhaol gan y staff ar y cyfan, gyda phawb yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion (43/43), gyda'r rhan fwyaf yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu (42/43), a'r rhan fwyaf yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith (42/43).

Rhannodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu balchder yn y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n falch iawn o weithio i'r uned hon. Mae cymaint o ymdeimlad o undod yn ein gweledigaeth a rennir neu o ran darparu gofal gwych i fenywod a'u teuluoedd yn ein cymuned, ac mae pawb wir yn ymfalchio yn y gwasanaeth a gynigiwn”

“Amgylchedd gwaith gwych gyda gwaith tîm a morâl ardderchog”

“Rydym yn gallu darparu gofal diogel ac unigoledig iawn i'n cleifion, gan roi eu hanghenion nhw yn gyntaf a sicrhau eu bod yn rhan o'u gofal a'r penderfyniadau a wneir. Rydym yn gallu darparu gofal un i un yn rheolaidd, a cheir parhad yn aml am mai tîm bach ydyn ni, sy'n rhywbeth cadarnhaol a chalonogol i'r rhai y gofalwn amdanynt ond i ni fel staff hefyd.”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae yna adegau pan fyddai o gymorth cael bydwaig band 7 nad yw'n gofalu am fenywod”

“Pwll geni integredig”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Dangoswyd arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig gan yr Arweinydd Gweithredol Bydwreigiaeth dros dro ym Mronglais yn ogystal â'r Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Clinigol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cawsant eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol ymrwymedig. Roedd y tîm yn grŵp cydlynol o arweinwyr, ac yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd â nhw, gwelsom eu bod yn gwerthfawrogi'r staff a lefel y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth. Siaradodd y staff yn uchel am uwch-arweinwyr a gwnaethant nodi newid cadarnhaol mewn diwylliant yn ystod y misoedd diwethaf. Yn benodol, cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol am yr Arweinydd Gweithredol Bydwreigiaeth Dros Dro. Disgrifiwyd bod arweinwyr yn agos atoch, ymrwymedig, teg a brwdfrydig. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff (40/41) y gellid dibynnu ar eu rheolwr llinell uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd a dywedodd yr holl staff fod uwch reolwyr i'w gweld.

“Rwy'n falch iawn o weithio i'r uned hon. Mae cymaint o ymdeimlad o undod yn ein gweledigaeth a rennir neu o ran darparu gofal gwych i fenywod a'u teuluoedd yn ein cymuned, ac mae pawb wir yn ymfalchio yn y gwasanaeth a gynigiwn”

“Rydym yn gweithio'n rhagorol fel tîm gan fod pob un ohonom yn gweithio tuag at yr un nod o ddarparu gofal o ansawdd gwych i fenywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'u babanod. Mae ein bydwagedd band 7 a band 8 yn gefnogol iawn, yn agos atoch ac yn hawdd mynd atynt i siarad â nhw.”

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd y cyfarfodydd hynny'n cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth, cyfarfod bwrdd gwella gofal mamolaeth a gofal newyddenedigol, grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol.

Gwnaethom nodi bod nifer o ddogfennau canllawiau'n hwyr yn cael eu hadolygu. Roedd hyn yn cynnwys y canllawiau diabetes mewn beichiogrwydd (ymhlith eraill). Dywedwyd wrthym fod hyn oherwydd problemau staffio a bod yr Arweinydd Clinigol wedi rhoi estyniad. Gwnaethom adolygu'r cofnodlyfr o ganllawiau wedi darfod a chawsom sicrwydd fod proses gynhwysfawr ar waith i adolygu a diweddarau'r rhain yn unol â'r canllawiau cenedlaethol a blaenoriaethau lleol.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau ar gyfer gofal lefel meddyg ymgynghorol 24 awr y dydd ar gyfer y ward esgor a gynaecoleg brys. Er bod y rhain i'w gweld yn briodol, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym mai cyfyngedig oedd yr achosion o

weld y meddyg ymgynghorol. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym hefyd nad oedd modd gweld y meddyg ymgynghorol yn y clinig cynenedigol.

Cawsom 2 sylw gan fenywod a oedd yn gysylltiedig â gofal meddyg ymgynghorol:

“Roedd y bydwagedd yn wych, roedd y gofal meddyg ymgynghorol yn wael”

“Mae angen gwella dilyniant gyda meddygon ymgynghorol, mae meddygon gwahanol gyda barnau gwahanol ar ofal yn peri dryswch.”

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu presenoldeb meddygon ymgynghorol ledled yr uned, gyda'r bwriad o gynyddu ei amlygrwydd a sicrhau bod yr holl staff a chleifion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom nodi bod ethos cryf ymhlith y tîm a gwelsom fod cyfathrebu effeithiol ar waith. Mae Ward Gwenllian yn elwa ar weithlu sefydlog o fydwragedd gyda rhai cydweithwyr profiadol iawn yn eu swyddi. Cawsom wybod am sawl enghraifft lle roedd uwch-aelodau o'r staff yn cefnogi cydweithwyr iau.

Gwnaethom adolygu'r ymatebion o'r holiadur staff ac roedd y rhan fwyaf o'r staff o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl (37/42). Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff (5/42) wrthym yr hoffent gael rhagor o hyfforddiant yn yr ystafell sefydlogi i fabanod newyddenedigol i sicrhau eu bod yn teimlo'n barod i ddarparu gofal diogel i fabanod newyddenedigol yn eu gofal.

Dywedwyd wrthym am gynlluniau i ddarparu rhagor o hyfforddiant mewn sefydlogi babanod newyddenedigol ac rydym yn argymhell y dylid gwneud gwaith gwerthuso a datblygu parhaus o'r hyfforddiant hwn.

Gwnaethom adolygu gwybodaeth y matrices hyfforddiant ar gyfer bydwreigiaeth a gwnaethom nodi bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn foddhaol. Lle cafodd lefelau cydymffurfiaeth is na boddhaol eu nodi, gwelsom dystiolaeth fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2023.

Nid oedd lefelau cydymffurfio â hyfforddiant ar gyfer staff meddygol ac anesthetig ar gael yn hawdd trwy fatrics hyfforddiant. O ymchwilio ymhellach, gwnaethom nodi cydymffurfiaeth wael ymhlith anesthetyddion ar gyfer hyfforddiant PROMPT.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol PROMPT o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu system a'i rhoi ar waith i olrhain lefelau hyfforddiant gorfodol staff clinigol ym mhob rhan o'r uned i sicrhau y gallant fynd i'r afael â lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol isel mewn ffordd amserol.

Mynegodd rhai aelodau o'r staff bryderon o ran y potensial i staff meddygol golli eu sgiliau mewn uned obstetreg fach oherwydd y diffyg potensial i gael eu hamlygu i achosion meddygol mwy cymhleth. Cawsom sicrwydd gan uwch-arweinwyr fod rhaglenni amryfal ar waith i liniaru yn erbyn colli sgiliau. Roedd hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant sgiliau ac ymarferion wedi'i diweddarau a oedd yn cael ei lansio o fis Medi gyda'r gofyniad i fod yn bresennol mewn tîm amlddisgyblaethol (yn ogystal â PROMPT) i ddatblygu sgiliau'r holl staff.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr hyfforddiant Sgiliau ac Ymarferion newydd ei adolygu a'i werthuso gan fonitro presenoldeb amlddisgyblaethol i sicrhau bod staff ar bob lefel yn parhau i fod yn y lle gorau i ddarparu gofal a thriniaeth o ansawdd uchel, diogel ac effeithiol i fenywod, pobl sydd wedi rhoi genedigaeth a'r babanod yn eu gofal.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff meddygol obstetrig ddangos lefelau sgiliau priodol wrth reoli argyfyngau obstetrig cymhleth a phrin.

Cawsom wybod fod bydwagedd band 5 newydd wedi'u recriwtio i Ysbyty Bronglais a gwelsom fod amserlenni sefydlu a hyfforddiant, gyda chymorth o bob rhan o'r bwrdd iechyd, ar waith i gefnogi'r rhain drwy eu rhaglen diwtoriaeth gynhwysfawr. Gwelsom frwdfrydedd ymhlith y tîm i roi cyfarwyddyd i fydwagedd newydd a'u hyfforddi'n gadarn i sicrhau bod staff newydd yn teimlo y cânt gefnogaeth lwyr.

Dyweddodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a chymorth i ddatblygu. Gwelsom dystiolaeth o lefelau cydymffurfio ag arfarnu uchel.

Dywedwyd wrthym am ystod gynhwysfawr o ffyrdd y gall aelodau o'r staff adrodd yn ôl ar unrhyw bryderon, gwelliannau neu awgrymiadau. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddwr "Codi Llais Heb Ofn", yn ogystal â goruchwylwyr clinigol agos atoch i fydwagedd, a chynrychiolwyr Coleg Brenhinol y Bydwagedd.

Gwnaethom adolygu ystod o rolau a swyddogaethau bydwraig arbenigol a oedd ar waith. Dywedodd aelodau o'r staff wrthym fod y rolau hyn yn gefnogol ac yn darparu canlyniadau effeithiol a chadarnhaol ar gyfer menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Cawsom wybod am y ffyrdd a'r amseroedd amryfal y gall y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Bronglais adrodd yn ôl ar eu profiad o ward Gwenllian. Gwnaethom siarad â'r fydwraig profiad y claf a thîm yr uwch-reolwyr a gadarnhaodd bod prosesau cynhwysfawr ar waith i gasglu, monitro, rhannu a dysgu gwersi o gwynion ac adborth. Gwnaethom edrych ar dystiolaeth ac enghreifftiau o adborth cadarnhaol a negyddol ac adolygu'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r adborth hwn.

Dywedwyd wrthym fod y broses nodi adborth yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, yn ogystal â phrosesau rhoi gwybod am ddigwyddiadau, lle y bo'n briodol. Roedd hyn yn golygu y gallai uwch-arweinwyr olrhain a monitro cynnydd yn effeithiol.

Gwelsom fwrdd adborth cleifion cyfredol yng nghoridor y ward. Gwelsom fod bwrdd adborth yn ystafell egwyl y staff lle gallai'r staff edrych ar sylwadau cadarnhaol a'u hadrodd yn ôl i'w cydweithwyr.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned.

Drwy'r arolygiad, gwnaethom nodi bod cofnodion y cleifion wedi'u storio'n ddiogel ac yn briodol. Roedd bwrdd gwybodaeth y cleifion (a ddefnyddir adeg trosglwyddo) i ffwrdd o'r ardal gyhoeddus.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom adolygu gwybodaeth yn ymwneud ag ystod o fentrau gwella ansawdd a gynhelir ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Gwnaethom adolygu sawl enghraifft o fentrau Gwella Ansawdd. Un enghraifft o arfer da oedd "Gwella'r Broses Adrodd a Chanfyddiadau yn sgil Dysgu o Ddigwyddiadau Andwyol ar draws y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol." Roedd hon yn fenter ledled y bwrdd iechyd a oedd yn nodi profiad gwell i staff o ran

rhoi gwybod am ddigwyddiadau, yn ogystal â chynnydd o 34% mewn adrodd ond dim cynnydd mewn niwed.

O'r staff a atebodd yr holiadur, dywedodd y rhan fwyaf fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau neu ddigwyddiadau a fu bron â digwydd (38/39) a chadarnhaodd y rhan fwyaf (37/38) fod y rhai a oedd ynghlwm mewn camgymeriad, digwyddiad neu gamgymeriad/digwyddiad a fu bron â digwydd yn cael eu trin yn deg.

Gwnaethom adolygu byrddau gwybodaeth deniadol a gwybodus ar brosiectau gwella fel dysgu o ddigwyddiadau a digwyddiadau hyfforddiant i'r dyfodol. Gwnaethom nodi bod Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd yn Hywel Dda yn weithgar wrth ddarparu goruchwyliaeth adferol clinigol a rhoesant ystod eang o fentrau a hyfforddiant gwella ansawdd gwybodaeth gyfredol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Gwasanaeth Mamolaeth (Ward Gwenllian), Ysbyty Cyffredinol Bronglais

Dyddiad yr arolygiad: 1-3 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol (PROMPT)</p> <p>Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. O'r wybodaeth a roddwyd, gwnaethom nodi cydymffurfiaeth wael â hyfforddiant PROMPT gorfodol o fewn y tîm o anesthetyddion.</p> <p>Dangosodd y wybodaeth fod 27% (3 allan o 11) o anesthetyddion a oedd yn darparu gofal obstetrig yn y</p>	<ul style="list-style-type: none"> gwella cydymffurfiaeth orfodol â Hyfforddiant Amlbroffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg o fewn y tîm o anesthetyddion yn ysbyty Bronglais hyrwyddo diogelwch cleifion yn y cyfamser hyd nes i gydymffurfiaeth wella. 	<p>Cafodd y Prif Anesthetydd a'r Prif Anesthetydd ar gyfer Obstetreg yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais eu hysbysu fel mater o flaenoriaeth a chafwyd sicrwydd ganddynt y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei chyflawni cyn gynted â phosibl.</p> <p>Cysylltwyd â PROMPT Cymru ac mae lle mewn hyfforddiant i hwyluswyr PROMPT ychwanegol ar gyfer</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol ar gyfer Ysbyty Bronglais</p> <p>Arweinydd y Tîm o Anesthetyddion: Ysbyty Bronglais</p>	<p>04.08.2023 cyfarfod uwchgyfeirio gydag Arweinydd y Tîm o Anesthetyddion</p> <p>04.08.2023 cadarnhad o ddyddiad</p>

theatr wedi cwblhau hyfforddiant PROMPT yn ystod y 12 mis diwethaf.

Felly, ni chafodd AGIC sicrwydd fod pob aelod o'r staff a oedd yn cymryd rhan mewn darparu gofal Obstetreg wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol a'u bod yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a babi yn eu gofal.

Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant menywod a babanod yn achos argyfwng obstetrig.

Anesthetydd Obstetrig o Ysbyty Cyffredinol Bronglais wedi'i gadarnhau. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr hwyluswyr anesthetig sydd ar gael am hyfforddiant PROMPT yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.

O gofio natur a gwerth hyfforddiant PROMPT, mae'n hanfodol mai tîm amlddisgyblaethol ydyw ac felly bod y sesiwn yn cael ei chynnal yn fisol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod rhaid iddo fod yn CAMPUS i gyflawni'r canlyniadau ac felly, bydd yn cymryd sawl mis i gyflawni cydymffurfiaeth.

Gwneud yn ddiogel ar unwaith - bydd ymarferion obstetrig brys yn cael eu hwyluso bob deufis a fydd yn benodol i

Arweinydd y Tîm o Anesthetyddion:
Ysbyty Bronglais

Rheolwr
Cyffredinol ar
gyfer Gofal wedi'i
Drefnu

hyfforddiant ychwanegol hwyluso hyfforddi'r hyfforddwr - dyddiad y cwrs 21.09.2023

Dechrau ym mis Awst 2023 gyda dyddiad cwblhau

setiau sgiliau'r
anesthetyddion.

Bydd yr ymarferion yn cael eu hamserlennu i sicrhau bod pob anesthetydd nad yw eisoes yn cydymffurfio â hyfforddiant PROMPT yn bresennol. Bydd diffyg cydymffurfiaeth yn cael ei uwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Meddygol os na fydd pob anesthetydd sy'n darparu gofal obstetrig yn bresennol.

Bydd yr ymarferion yn cael eu cynhyrchu ar y cyd rhwng arweinydd y tîm o anesthetyddion a chyfadran PROMPT.

Bydd rhaglen newydd PROMPT yn dechrau ym mis Medi 2023 a bydd Anesthetyddion heb gydymffurfio yn cael eu blaenoriaethu i'r hyfforddiant diwrnod llawn cynharaf, yn unol â'r amserlen.

rhaglen
ymarfer
disgwyliedig
erbyn diwedd
mis Awst 2023

Dyddiadau
ymarfer ar 18 a
24 Awst 2023

Bydd y rhaglen
PROMPT
newydd yn
dechrau ar:

26 Medi

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gwasanaeth Mamolaeth (Ward Gwenllian), Ysbyty Cyffredinol Bronglais

Dyddiad yr arolygiad: 1-3 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Cydsyniad obstetrig gwybodus</p> <p>Dyweddodd rhai menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth i ni nad oeddent yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetrig a'u risgiau a manteision. Nid oedd rhai bob amser o'r farn y gallent wneud dewis deallus am eu gofal a'u triniaeth.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl gleifion yn llwyr ymwybodol o'r holl ddewisiadau o ran triniaeth obstetreg a'u risgiau a manteision cyn iddynt gael cydsyniad deallus</p>	<p>Mae taflenni gwybodaeth i gleifion priodol ar waith er mwyn i fenywod allu gwneud penderfyniadau/dewisiadau deallus am eu cynlluniau gofal a thriniaeth.</p> <p>Archwilio cydymffurfiaeth â defnyddio a dogfennu cynlluniau gofal sy'n dangos bod gan fenywod fynediad i'r wybodaeth i wneud penderfyniadau/dewisiadau gwybodus</p>	<p>Rheolwr Darparu Gwasanaethau ar gyfer Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol</p> <p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Ionawr 2024</p>

Defnyddio gwasanaethau cyfieithu

Dyweddodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oeddent yn hyderus wrth ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar gyfer menywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth lle nad Saesneg / Cymraeg yw eu hiaith gyntaf.

Wrth adolygu un set o nodiadau ar gyfer menyw nad Saesneg oedd ei hiaith gyntaf, gwelsom nad oedd yr holl gwestiynau wrth drefnu lle wedi'u cwblhau.

Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu rhagor o hyfforddiant i staff er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau cyfieithu eu defnyddio i gefnogi sgysiau clinigol pan na fydd Cymraeg / Saesneg yn bosibl

Mae ap cyfieithu newydd wedi'i gyflwyno ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd ac wedi'i lanlwytho i bob cyfrifiadur a ffôn clyfar er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu a chynllunio gofal.

Rhedodd y sesiwn Cinio a Dysgu drwy fis Awst 2023 ac ym mhob rhan o'r gwasanaethau mamolaeth. Roedd y sesiynau ymwybyddiaeth yn cynnwys lawrlwytho'r ap i'r ddyfais a ffefrir, sut i ddefnyddio'r ap a sut i fynd at y gwasanaeth trefnu apwyntiadau ar gyfer apwyntiadau clinigol lle y caiff y rhain eu nodi.

Lle y mae angen gwasanaeth cyfieithu cymhleth ar gyfer apwyntiadau clinigol, caiff hyn ei drefnu a'i baratoi cyn yr apwyntiadau er mwyn cefnogi'r ymgynghoriadau.

Pennaeth
Bydwreigiaeth

Prif Fydwraig
Gweithredol a
Chlinigol ar gyfer
y gymuned a Gofal
Cynenedigol

Prif Fydwraig
Gweithredol a
Chlinigol ar gyfer
y gymuned a Gofal
Cynenedigol

Cwblhawyd Awst
2023

Wedi'i gwblhau
Awst 2023

Wedi'i gwblhau

		Mae tîm amlddisgyblaethol cynllunio gofal cymhleth ar waith lle y caiff yr achosion hyn eu trafod ar y cyd gan y tîm er mwyn rhoi trefniadau priodol ar waith i deuluoedd y mae angen cymorth cyfieithu arnynt.	Prif Fydwraig Gweithredol a Chlinigol ar gyfer y gymuned a Gofal Cynenedigol	Tîm amlddisgyblaethol ar waith - cynllun ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyfieithu fel rhan o waith cynllunio'r pecyn gofal ers mis Awst 2023
<p>Llywodraethu Clinigol - Ystafell Sefydlogi Babanod Newyddenedigol</p> <p>Mae'r ystafell sefydlogi babanod newyddenedigol yn y Ward Famolaeth (Ward Gwenllian) lle darperir gofal gan fydwragedd</p> <p>Roedd y trefniadau llywodraethu clinigol yn aneglur ar gyfer yr ystafell hon</p>	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r trefniadau llywodraethu clinigol sy'n gysylltiedig â'r ystafell sefydlogi newyddenedigol i sicrhau bod y gwasanaeth a'r staff sy'n darparu gofal yn cael eu harwain yn briodol, yn gymwys, yn cael eu llywodraethu a'u cefnogi	<p>Bydd Llywodraethiant yr ystafell i Fabanod Newyddenedigol yn aros o fewn y portffolio Mamolaeth gyda chymorth yr Uwch-nyrs Newyddenedigol a'r Cyfarwyddwr Clinigol ar gyfer Hywel dda a'r tîm meddygol Pediatrig Lleol yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.</p> <p>Mae rhaglen ar waith i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn briodol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod buddsoddiad</p>	Pennaeth Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr Clinigol Prif Fydwraig Clinigol a Gweithredol ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Bronglais	Ionawr 2024

		yn cael ei wneud pan fydd angen ei ddiweddarau.	Uwch-nysrs Arwain ar gyfer Pediatreg a Babanod Newydd-anedig	
<p>Staff ar alwad</p> <p>1. Bydwagedd</p> <p>Mewn adegau o aciwtedd cynyddol, caiff bydwagedd cymunedol eu galw i mewn i gefnogi'r ward. Roedd rhai bydwagedd cymunedol o'r farn ei bod yn amhriodol iddynt staffio rota ar alwad ar gyfer ward obstetrig</p> <p>2. Nysys sgyrb theatr</p> <p>Mae'r theatrau ar gael ar gyfer gofal obstetrig brys bob awr o'r dydd a'r nos. Er bod rhai o aelodau staff y theatr ar gael ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos, mae nysys sgyrb theatr yn gweithredu system ar alwad</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu proses y rota ar alwad (ar gyfer bydwagedd) i sicrhau bod bydwagedd gyda sgiliau priodol ar gael i gefnogi'r uned obstetreg mewn cyfnodau o aciwtedd cynyddol</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system ar alwad ar gyfer nysys sgyrb er mwyn sicrhau bod staff theatr preswyl ar gael bob awr o'r dydd a'r nos i ddarparu gofal yn y theatr mewn argyfwng obstetrig</p>	<p>Mae ffactor swyddi gwag o 1.8 cyfwerth ag amser llawn wedi'i recriwtio er mwyn cefnogi gofynion staffio'r gwasanaeth ymhellach.</p> <p>Bydd bydwagedd cymunedol yn cefnogi'r uned obstetreg aciwt ar natur wedi'i theilwra'r gwasanaeth a bydd yn ymateb i gyfnodau o aciwtedd uchel yn unig ac yn eu cefnogi. Caiff oriau cymunedol eu coladu'n fisol er mwyn deall defnydd a dylanwad a chânt eu rhannu â'r tîm bydwreigiaeth uwch.</p> <p>Mae siart llif uwchgyfeirio gradd coch, melyn a gwyrdd ar waith yn ystod cyfnodau o aciwtedd uchel i sicrhau proses uwchgyfeirio briodol am gymorth gan y bydwagedd</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Prif Fydwraig Clinigol a Gweithredol ar gyfer Gofal Cymunedol ac Ôl-enedigol</p> <p>Prif Fydwraig Clinigol a Gweithredol ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Bronlais</p>	<p>Hydref 2023</p> <p>Cwblheir yn fisol</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth flynyddol ei monitro a'i hadrodd arni wrth gwblhau'r rhaglen ym mis Awst. Gwnaeth y bydwagedd cymunedol gydymffurfio 100% ar gyfer y</p>

y tu allan i oriau, oddi ar y safle. Mae risg y gall y system hon achosi oedi mewn argyfwng osbtetrig.

cymunedol y mae eu lleoliad ar Ward Gwenllian.

Mae bydwragedd cymunedol yn cymryd rhan mewn hyfforddiant PROMPT blynyddol ac yn cwblhau'r cwrs PROMPT cymunedol ac obstetrig i sicrhau bod sgiliau ac ymarfer yn cefnogi gofynion risg isel a risg uchel y ddau faes ymarfer clinigol.

Bydd rhaglen sgiliau ac ymarferion newydd yn cynnwys y tîm bydweigiaeth cymunedol er mwyn cefnogi eu hangen parhaus i gynnal y sgiliau obstetrig sy'n ofynnol i gefnogi aciwtedd uchel ac mae'r rhain wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn.

Mae 1 nyrs sgryb ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos, mae ail

ddau gwrs PROMPT ym mis Awst 2023.

Hydref 2023

Datblygiad Proffesiynol: Y Tîm Bydwreigiaeth a Nyrsio


Cwblhawyd - 2019, ailedrychwyd ar hwn ym mis Medi 2023, mae opsiwn 3 yn parhau i fod yn briodol ar sail asesiad risg. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau

		<p>nyrs sgrwb ar alwad ar ôl 20:00 o'r gloch a chaiff ei galw pan fydd angen y theatr ar gyfer obstetreg.</p> <p>Cynhaliwyd proses arfarnu opsiynau ac asesiad risg i sicrhau bod diogelwch a staff i gyflenwi'r theatr y tu allan i oriau er mwyn cefnogi'r gofynion obstetreg yn sgil argyfyngau.</p>		ym mis Hydref 23.
<p>Canllawiau cenedlaethol sganio twf ffetysol cynenedigol</p> <p>Ni chaiff canllawiau sganio cynenedigol ar gyfer twf ffetysol ar ôl 28 wythnos eu dilyn ar hyn o bryd. Ar adeg yr arolygiad, roedd sganiau twf cynenedigol rheolaidd yn cael eu cyflawni ddwywaith ar ôl 28 wythnos ac nid bob 3 - 4 wythnos ar ôl cyfnod beichiogrwydd o 28 wythnos</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion cynlluniau i liniaru'r risgiau o beidio â dilyn y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â sganio cynenedigol ar gyfer twf ffetysol, yn ogystal â chynlluniau i gynyddu'r capasiti sganio cynenedigol ar gyfer pob menyw, yn unol â'r canllawiau</p>	<p>Mae Grŵp Rheoli Uwchsain ar waith i gefnogi'r gwaith cynllunio gweithlu a fydd yn mynd i'r afael â gallu'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol i fonitro twf ffetysol mewn beichiogrwydd, gan nodi'r prinder cenedlaethol o sonograffyddion ledled Cymru a'r DU.</p> <p>Lle caiff pryderon eu nodi o ran twf, caiff goruchwyliaeth o</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2023</p> <p>Heb newid - ar waith a dan</p>

		<p>dwf ffetysol ei chynyddu a'i darparu yn unol â chanllawiau.</p> <p>Cafodd cyllid AaGIC ei sicrhau i hyfforddi sonograffyddion bydwreigiaeth, gyda'r rhaglen yn dechrau ym mis Ionawr 2024</p> <p>Mae'r Adran Radioleg wedi recriwtio sonograffyddion ychwanegol, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd hyfforddiant i radiograffwyr ymgymryd â gwaith sganio uwchsain obstetrig.</p> <p>Caiff adroddiadau o bryderon am dwf eu hadrodd ar DATIX a'u hymchwilio iddynt ar y cyd â'r adran Radioleg.</p> <p>Risg i'r Gwasanaeth, y Gyfarwyddiaeth a'r Gofrestr</p>	<p>Pennaeth Radioleg</p> <p>Rheolwr Cyffredinol ar gyfer Gofal wedi'i Drefnu</p>	<p>arweiniad y Rheolwr Cyffredinol ar Ofal Wedi'i Drefnu</p> <p>Ionawr 2024</p> <p>Camau ymgwyfarwyddo wedi'u cwblhau ym mis Awst 2023</p> <p>Heb newid - ar waith</p>
--	--	---	--	--

		Risg Corfforaethol a chaiff ei hadolygu yn unol â phrosesau llywodraethu.		Wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2023
<p>Rhoi Propess heb drwydded, heb adolygu'r claf a heb ganiatâd</p> <p>Ar adeg yr arolygiad, cadarnhaodd adolygiad o gofnodion cleifion ac ymarfer clinigydd fod 2 besari Propess yn hytrach nag 1 yn cael ei roi heb adolygiad wyneb yn wyneb wedi'i ddogfennu</p>	<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad obstetrig wyneb yn wyneb yn cael ei ddogfennu ar gyfer cleifion lle rhoddir meddyginiaethau anhrwyddedig iddynt. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau'r ymarfer staff yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.</p>	<p>Roedd canllawiau ar waith a oedd yn dangos ymarfer rhoi Propess cywir a phriodol</p> <p>Tynnwyd hen boster i ffwrdd o'r amgylchedd clinigol.</p> <p>Anfonwyd cyfathrebiadau at bob aelod o'r staff a chawsant eu diweddarau â'r ymarfer cywir er mwyn ei atal rhag digwydd eto.</p> <p>Cafodd y tîm Obstetrig ei ddiweddarau trwy gyfarfod y Meddygon Ymgynghorol mewn perthynas â'i ymarfer fel rhan o rowndiau'r ward i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Prif Fydwraig Clinigol a Gweithredol ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Bronglais</p>	<p>Cwblhawyd 15.07.2022</p> <p>Cwblhawyd yn ystod yr arolygiad ar 1 Awst 2023</p> <p>Cwblhawyd yng nghyfarfod Awst 2023</p>

<p>Gwelededd / argaeledd meddyg ymgynghorol</p> <p>Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym hefyd fod meddyg ymgynghorol ar gael i raddau cyfyngedig ar y ward ac yn y clinig cynenedigol ac weithiau nid oedd meddygon ymgynghorol ar gael i gefnogi penderfyniadau</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu presenoldeb meddygon ymgynghorol ledled yr uned, gyda'r bwriad o gynyddu ei amlygrwydd a sicrhau bod yr holl staff a chleifion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi</p>	<p>Gan ddefnyddio'r adnodd adrodd trwy QR, monitro cynrychiolaeth meddygon ymgynghorol mewn sgrymiau diogelwch dyddiol / cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol.</p> <p>Gan ddefnyddio'r adnodd aciwtedd, monitro presenoldeb y meddyg ymgynghorol ar yr uned wrth drosglwyddo yn y bore a'r nos ac yn rowndiau'r wardiau.</p> <p>Cadarnhau bod lleoliad y meddygon ymgynghorol ar gael ac yn hygyrch at ddibenion cyfathrebu uniongyrchol am gyngor ac adolygiad gan gleifion drwy'r amser.</p>	<p>Rheolwr Darparu Gwasanaethau ar gyfer Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol</p> <p>Arweinydd Clinigol mewn Obstetreg a Gynaecoleg</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p>Hyfforddiant</p>				
<p>Sefydlogi babanod newyddenedigol</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu, gwerthuso a datblygu'r</p>	<p>Mae'r addysgwyr ymarfer ar gyfer babanod newydd-anedig</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Ionawr 2024</p>

<p>Dyweddodd rhai aelodau o'r staff wrthym y byddent yn hoffi cael rhagor o hyfforddiant o ran yr ystafell sefydlogi babanod newyddenedigol i gynyddu eu sgiliau, gallu a hyder.</p>	<p>hyfforddiant gofal newyddenedigol hwn ymhellach</p>	<p>yn gweithio'n gyda thîm Ysbyty Cyffredinol Bronglais a'r Fydwraig a fu'n cymryd rhan wrth gefnogi hyfforddiant, ar ofal newyddenedigol, yn ward Gwenllian. Bydd hyfforddiant efelychu lleol yn cael ei drefnu ar y cyd â'r diweddariadau NLS blynyddol i'r holl aelodau o'r staff a rhaglen 6 misol ar gyfer yr holl staff band 7. Bydd hyn yn cael ei arwain gan yr addysgwr ymarfer, y nyrs newyddenedigol a'r tîm Bydwreigiaeth datblygu ymarfer, yn ogystal â'r arweinydd meddygol lleol ar gyfer babanod newydd-anedig yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais.</p> <p>Mae gennym uwch-ymarferydd nyrsio sy'n ymgymryd â rhagor o hyfforddiant mewn babanod newydd-anedig i allu cynnig rhagor o gymorth yn lleol.</p>	<p>Prif Fydwraig Clinigol a Gweithredol ar gyfer Ysbyty Cyffredinol Bronglais</p> <p>Uwch-nyrs Arwain ar gyfer Pediatreg a Babanod Newydd-anedig</p>	
--	--	--	--	--

<p>Olrhain hyfforddiant gorfodol</p> <p>Roedd y lefelau hyfforddiant gorfodol ar gyfer bydwagedd ar gael ar gais. Nid oedd y lefelau hyfforddiant gorfodol ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a meddygon obstetreg ar gael yn hawdd. Roedd hi'n anodd cadarnhau a oedd cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol ar waith ar gyfer yr adran gyfan</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ddatblygu system a'i rhoi ar waith i olrhain lefelau hyfforddiant gorfodol staff clinigol ym mhob rhan o'r uned i sicrhau y gallant fynd i'r afael â lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol isel mewn ffordd amserol</p>	<p>Roedd taenlen Excel yn cael ei datblygu i gefnogi'r gwaith o olrhain cydymffurfiaeth feddygol â hyfforddiant gorfodol.</p> <p>Bydd cyfarfod y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad sy'n cwrdd yn fisol yn cael ei fonitro.</p>	<p>Datblygiad Proffesiynol Bydwagedd</p> <p>Rheolwr Darparu Gwasanaethau ar gyfer Gynaecoleg ac Iechyd Rhywiol</p> <p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Tiwtor y Coleg</p>	<p>Ionawr 2024</p>
<p>Hyfforddiant Sgiliau ac Ymarfer a chynnal sgiliau</p> <p>Dywedwyd wrthym fod rhaglen hyfforddiant wedi'i hadnewyddu ar waith i sicrhau bod sgiliau clinigol pob clinigydd yn gadw'n gyfredol ac yn berthnasol.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd fonitro presenoldeb ac adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd hyfforddiant Sgiliau ac Ymarfer newydd.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y gall staff meddygol obstetrig ddangos lefelau sgiliau priodol wrth reoli argyfyngau obstetrig cymhleth a phrin.</p>	<p>Bydd rhaglen sgiliau ac ymarferion newydd yn cynnwys y tîm bydwreigiaeth cymunedol er mwyn cefnogi eu hangen parhaus i gynnal y sgiliau obstetrig sy'n ofynnol i gefnogi aciwtedd uchel ac mae'r rhain wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Clinigol</p> <p>Datblygiad Proffesiynol: Y Tîm Bydwreigiaeth a Nyrso</p>	<p>Hydref 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Kathryn Greaves

Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad: 2 Hydref 2023